

Ysgol Gynradd Llanddarog Ysgol Yr Eglwys Yng Nghymru

Llanddarog,
Caerfyrddin.
Sir Gaerfyrddin.
SA 32 8 BJ.

Rhif Ffôn :- (01267) 275 242

E-bost :- prif@llanddarog.ysgolccc.org.uk

Gwefan :- <http://www.llanddarog.amdro.org.uk>

Trydar :- Trydar@YsgolLlanddarog

Ysgol Gynradd Wirfoddol, o dan Reolaeth yr Eglwys
yng Nghymru ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a
disgyblion Iau yw Ysgol Llanddarog.

Pennaeth :- Mrs Meinir Jones.

Athrawon :- Mrs. Katie Strick
Mrs. Catrin Jones
Mrs. Marian Evans
Mr. Iwan Price

Cadeirydd y Llywodraethwyr :-
Mr. Mark Griffiths.

Noder:-

Gall y wybodaeth a gynhwysir yn y prospectws
newid o bryd i'w gilydd.

Corff Llywodraethol 123

Dyma restr lawn o'r Llywodraethwyr :-

ENW.	STATWS.
Parch. B. Witt.	Sylfaen.
Ms.V. Thomas.	Sylfaen.
Cyng A. Davies.	Awdurdod Lleol.
Mrs. M. Rees.	Awdurdod Lleol.
Cyng. T. Jones	Awdurdod Llai.
Ms. E. Miles.	Rhiant.
Mr. R. Seymour.	Rhiant.
Mrs. V. Jeremy.	Rhiant.
Mr. M. Griffiths	Cyfethol
Mrs. M. Jones.	Pennaeth.
Mrs. C. Jones.	Athrawes.
Mrs.E. James.	Ymwelydd yr Esgob

Clerc i'r Llywodraethwyr :-

Cyfarwyddwr – Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,

Ffôn :- (01267) 246500

Parc Dewi Sant.

Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin.

SA31 3HB.

Mae'r rhieni fel Llywodraethwyr wedi eu penodi am bedair blynedd. Pan fydd angen llywodraethwyr newydd i gynrychioli'r rhieni, bydd rhieni'r plant sy'n mynychu'r ysgol lle mae lle gwag yn cael gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau, ac os derbynnir mwy o enwebiadau na'r angen, cynhelir etholiad. (Bydd hawl gan y ddau riant i bleidleisio.)

DATGANIAD CENHADOL.

Y mae Ysgol Llanddarog yn gwneud ymdrech :-

- I hyrwyddo'r safonau academaidd uchaf posibl ym mhob agwedd o'r Cwricwlwm gan sicrhau fod pob disgybl yn datblygu ei botensial.
- I hyrwyddo dysg ac i greu awyrgylch croesawgar, cyfeillgar a chynorthwyol lle mae gwerthoedd Cristnogol yn ethos canolog yr ysgol.
- I ddangos gofal a chyfrifoldeb yn tarddu o ymdeimlad cryf ynglyn â gwerthoedd Cristnogol.
- I greu cysylltiad rhwng yr ysgol, y cartref, y plwyf a'r gymuned leol, gan greu ymdeimlad o fodolaeth a phrofiad o'r ffydd Gristnogol a hefyd i ddysgu'r plant eu bod yn gyfrifol y naill dros y llall a bod yn barod i helpu ei gilydd.
- I ddefnyddio'r adnoddau ariannol sydd ar gael, i sicrhau adeiladau ac amgylchfyd cymwys a'r safonau uchaf posibl o ran staffio ac offer.

DATGANIAD NAWS GREFYDDOL YSGOL EGLWYSIG.

“Gan gydnabod ei sefydliad hanesyddol, bydd yr ysgol yn cadw a datblygu ei hansawdd grefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru ac mewn partneriaeth â'r Eglwys ar lefel blwyfol ac esgobaethol. Nod yr ysgol yw gwasanaethu ei chymuned trwy ddarparu addysg o'r safon uchaf yng nghyswllt cred a threfn Cristnogol. Bydd yn symbylu dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd ac yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol trwy'r profiad a gyniga i bob un o'i disgyblion.”

AMCANION YR YSGOL.

Prif nôd yr ysgol yw i annog y plentyn i ddatblygu fel unigolyn ac fel aelod o gymdeithas er mwyn ei baratoi ar gyfer bod yn oedolyn.

Er mwyn cyrraedd y prif nôd rhaid:-

- Datblygu meddwl hyblyg ac effro sy'n mynnu gofyn cwestiynau, sicrhau dealltwriaeth, gwybodaeth a medrau perthnasol i fywyd a gorchwylion.
- Datblygu ystwythder a chyd raddoliad corfforol, hunan hyder ac ymwybyddiaeth o'r corff.
- Deall natur a gwerth y grefydd Gristnogol a bod yn ymwybodol o, ac yn oddefgar tuag at grefyddau eraill.
- Rheoli ei emosiynau a'i ymddygiad ei hun fel ei fod yn hunan-hyderus, a chanddo ymdeimlad o ddigonolrwydd personol.
- Meithrin cyfres o werthoedd moesol a bod yn barod i gyfrannu i'r gymdeithas.

(Gweler manylion am Gytundeb Partneriaeth rhwng Rhieni / Disgybl / Ysgol yng nghefn y llyfryn.)

Y CWRICWLWM.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh). Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn helpu plant 5 i 14 oed i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Byddwn yn defnyddio'r fframwaith i sicrhau bod addysgu sgiliau rhifedd a llythrennedd yn cael ei ymgorffori ym mhob maes Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae chwe Maes Dysgu i'r Cyfnod Sylfaen, lle gellir gweu gweithgareddau chwarae strwythuredig i mewn i'r profiadau dysgu mewn ffordd sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm wedi'i lunio ar sail y chwe maes hwn i ategu a hyrwyddo lles personol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol y disgybl.

- Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.
- Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.
- Datblygiad mathemategol.
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.
- Datblygiad Corfforol.
- Datblygiad Creadigol.

Cyflwynir Addysg Grefyddol fel pwnc arwahan.

Cyflwynir Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2. (C.A. 2)

Pynciau Statudol.

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth.

a Daeryddiaeth, Hanes, Cerddoriaeth, Celf, Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol ac Addysg Personol a Chymdeithasol.

Cynllunir y Cwrs Addysg i ateb gofynion Y Cwricwlwm Cenedlaethol ond yn bwysicach i ateb gofynion ac anghenion bywyd bob dydd.

Cyflwynir cwrs eang er mwyn sicrhau bod y plant o oed cynradd yn derbyn gymaint ag sy'n bosibl o brofiadau uniongyrchol a phersonol.

Cyflwynir y cwrs addysg mewn amrywiaeth o ffyrdd ond yn bennaf yn thematig.

Cyfrifoldeb yr holl staff yw gwella sgiliau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a TGCh.

POLISI IAITH.

Yn unol â pholisi iaith y Sir, y nôd yw addysgu'r disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn gadael yr ysgol gynradd er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Ceisir sicrhau fod pob disgybl yn medru cyfathrebu yn hyderus yn y ddwy iaith a'u bod yn ymwybodol o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol, a thrwy gyfrwng y Gymraeg y cynhelir holl weithgareddau a gwasanaethau'r ysgol.

Y Gymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith Adran y Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau, gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r Adran Iau.

Mae'r ysgol yn Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg.

CYFLE CYFARTAL.

Yn Nhachwedd 1989 mabwysiadodd Cynulliad y Cenhedloedd Unedig argymhellion confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar 'Hawliau'r Plentyn' a sylfaenwyd ar nifer o egwyddorion.

Mae'r hawliau yn eiddo i bob disgybl ac ni ddylid gwahaniaethu rhwng disgyblion ar sail hil, rhyw, lliw, iaith, crefydd, anabledd o unrhyw fath, barn wleidyddol neu ryw farn arall, gwreiddiau y disgyblion tuag at y gwahaniaethau, cenedlaethol neu gymdeithasol, statws teuluol neu unrhyw statws arall a berthyn i'r disgybl neu i'w deulu.

Awgrymir meithrin agwedd iach a'i gwneud yn bosibl i bob disgybl brofi'r holl weithgareddau amrywiol a gynigir mewn dosbarthiadau plant ifanc.

POLISI ANABLEDD.

Mae Ysgol Llanddarog yn sefydliad sydd yn cynnig cyfle cyfartal i bawb. At y diben hwn, ceisiwn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei drin yn wahanol ar sail anabledd.

TREFNIADAETH FUGEILIOL YR YSGOL.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw goruchwyliaeth gyffredinol yr ysgol, ac fe'i cynorthwyr gan aelodau eraill y staff.

Er ein bod fel Staff yn gwneud popeth i sicrhau diogelwch y disgyblion, mae damweiniau yn gallu digwydd o bryd i'w gilydd, a rhoddir triniaeth yn ddiymdroi. Pan ddigwydd damwain mwy difrifol hysbysir y rhieni amdano cyn gynted â phosibl a phetai angen eir â'r plentyn i Ysbyty Glangwili. Delir â mân friwiau gan aelodau o'r staff.

Cedwir cofnod o unrhyw ddamwain yn llyfr damweiniau'r ysgol.

Os oes rhaid i'r disgybl gymryd moddion yn ystod oriau ysgol rhaid arwyddo ffurflen ' Cais i Roi Meddygyniaeth' o flaen llaw. Gellir lawr lwytho copi o'r ffurflen caniatad o wefan yr ysgol o dan 'Meddygol' ar y dudalen Cartref neu mae copiau ar gael yn yr ysgol. Cedwir y moddion dan glo er mwyn diogelwch. Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am sicrhau bod disgybl yn cymryd ei foddion.

Er mwyn gweithredu'r uchod yn effeithiol rhaid pwysleisio pwysigrwydd rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw newid yn :-

- a) Rhif ffôn cartref.
- b) Cyfeiriad cartref.
- c) Rhif ffôn brys.
- ch) Cyflwr meddygol disgybl.

CAMAU ATAL BWLIO.

“Mae gan bob plentyn yr hawl sylfaenol i dderbyn ei addysg mewn awyrgylch hapus a diogel!”

Nid ydym yn goddef bwlio yn yr ysgol hon !

ABC y Rhieni.

Anogwch eich plentyn i sgwrsio â chi am yr ysgol.
Byddwch effro i'r arwyddion.
Cysylltwch a'r ysgol yn ddiymdroi.

ABC y Plant.

Anwybyddwch y bwli.
Byddwch yn hyderus.
Cerwch i ddweud wrth oedolyn ar unwaith.

ABC y Staff.

Archwiliwch bob achos.
Byddwch ar gael i wrando a chefnogi.
Cofnodwch y digwyddiad.

Cydweithiwn i ddileu bwlio.

Y mae bob amser yn syniad da i chi gymryd diddordeb ym mywyd cymdeithasol eich plentyn gan sgwrsio am ei ffrindiau ac am eu diddordebau o fewn a thu allan yr ysgol. Ynghyd â chael gwybodaeth am gyfeillgarwch presennol eich plentyn hwyrach y cewch glywed am unrhyw anghydweld neu anhawster sy'n peri gofid iddo/iddi.

Gwylwch am arwyddion o anhapusrwydd yn eich plant, e.e. amharodrwydd i fynychu'r ysgol, achwyn am ben neu stumog dost. Teganau neu offer yn mynd ar goll, ceisiadau am fwy o arian poced. Fe allai fod sawl rheswm pam nad yw'ch plentyn yn ymgartrefi yn yr ysgol ond mae bwlio bob amser yn bosibilrwydd.

Cofiwch, os oes unrhywbeth yn eich poeni, cysylltwch â'r Pennaeth ar unwaith er mwyn trafod.

DERBYN PLANT NEWYDD.

Ystod Oed y Disgyblion. :- 4 i 11.

Derbynnir disgyblion ar ddechrau'r tymor pan fyddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed. Awgrymir bod rhieni yn danfon eu plant i'r Ysgol Feithrin leol fel paratoad i'r plant cyn cychwyn yn yr ysgol.

Rhoddir cyfle i ddisgyblion newydd ymweld â'r ysgol am ddiwrnod ar ddiwedd y tymor cyn iddo / iddi ddechrau yn swyddogol. Dylid cysylltu â'r ysgol er mwyn cael mwy o wybodaeth am y trefniant.

Awgrymir bod rhieni disgyblion newydd yn gwneud apwyntiad gyda'r pennaeth i ymweld â'r ysgol cyn i'r disgybl ddechrau.

Rhaid dilyn polisi derbyn y sir ar gyfer cofrestri disgybl.

Dosberthir y disgyblion fel arfer yn ôl eu hoedran mewn dosbarthiadau cymysg eu gallu.

Trosglwyddir y disgyblion fel rheol i Ysgol Maes y Gwendraeth yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed.

Bydd y Cyngor Sir drwy'r Rheolwr Derbyniadau yn cyfarwyddo Cyrff Llywodraethol, a thrwyddynt y Pennaeth, i'w gwneud hi'n eglur i rieni pan fydd disgybl o du allan y dalgylch yn cael mynediad i'r ysgol y gall hynny gael effaith ar y trosglwyddiad i addysg uwchradd. Nid yw'n dilyn fod mynediad i ysgol gynradd yn hawlio mynediad i ysgol uwchradd y dalgylch; cyfeiriad cartref y disgybl sy'n dynodi'r ysgol uwchradd y bydd yn cael mynediad iddi. Mae adborth wrth rieni yn y Broses Apeliadau yn nodi nad yw hyn bob amser yn eglur o'r dechrau.

AMSERAU AGOR A CHAU.

Cyfnod Sylfaen a Disgyblion Iau.

9.00 a.m. tan 12.00 p.m.

1.00 p.m. tan 3.30 p.m.

Rhoddir pwyslais ar brydlondeb. I hyrwyddo eu diogelwch, gwell yw i'r disgyblion beidio â chyrraedd yr ysgol yn rhy gynnar yn y bore na chaniatáu iddynt oedi gormod cyn cael eu casglu ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Agorir prif adeilad a chaban yr ysgol am **8.45 a.m.** a dyna'r amser fydd staff dysgu'r ysgol yn cymryd cyfrifoldeb am y disgyblion. Cyfrifoldeb rhiant / gwarcheidwad pob disgybl sy'n cyrraedd **cyn 8.45 a.m.** yw hebrwng y disgyblion i'r ffreutur (gyda'u cotiau a'u bagiau) a'u trosglwyddo'n ddiogel i ofal staff y Clwb Brecwast drwy eu harwyddo i fewn. Gall unrhyw ddisgybl sy'n cyrraedd **ar ôl 8.45 a.m.** fynd yn syth i'w ddsbarth.

Gofynnir i rieni gasglu eu plant wrth glwyd yr ysgol yn y prynhawn.

Ni chaniateir cerbydau ar diriogaeth yr ysgol ac eithrio o dan amgylchiadau neilltuol.

Os oes unrhyw newid yn nhrefniadau casglu disgybl o'r ysgol a wnewch chi fod mor garedig â sicrhau bod yr Ysgol yn gwybod amdanynt, er mwyn diogelwch y disgyblion.

CLWB Y LLAN

(Clwb sy'n cynnig gofal ar ôl ysgol)

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn rhedeg Clwb y Llan sy'n hollol annibynnol i'r ysgol.

Mae'r clwb ar agor am dair noson yr wythnos.

3.30 p.m. tan 6.00 p.m. ar Nos Lun, Nos Fawrth a Nos Iau.

Am fwy o wybodaeth ynglyn â'r telerau cysylltwch â'r ysgol.

RHEOLAU .

Nodir y canlynol er mwyn paratoi'r disgyblion i dyfu i fod yn ddinasyddion da, gweithgar, cymwynasgar a pharchus mewn cymdeithas. Disgwylir i bob disgybl ymddwyn yn weddus a moesgar, ac i gymryd lle cyflawn o fewn cymdeithas yr ysgol.

Disgwylir i ddisgyblion yr ysgol gydymffurfio â'r canlynol.

- Dangos parch a chwarteisi tuag at eu cyd ddisgyblion ac oedolion.
- Ufuddhau i gyfarwyddiadau'r athrawon.
- I fod yn brydlon.
- I barchu llyfrau, offer, dodrefn a chyfarpar yr ysgol.
- I barchu eiddo personol eu cyd ddisgyblion.
- I barchu eu hamgylchfyd. - adeilad yr ysgol, y tir o gwmpas ynghyd â phob man arall y tu allan i'r ysgol.
- I ufuddhau i drefniadaeth dril tân.

Yn ogystal, rhaid nodi'r canlynol :-

- Dylid cerdded, ac nid rhedeg, tu mewn i adeilad yr ysgol.
- Anogir y disgyblion i gadw'u gwallt yn raenus.
- Ni chaniateir dod â losin, bisgedi na chreision i'r ysgol, ond caniateir ffrwyth i'w fwyta yn ystod egwyl. Gwaherddir poteli a chaniau diodydd.
- Ni ddylid gwisgo gemau gwerthfawr i'r ysgol ac yn sicr ni chaniateir clust dlysau i'r merched nac ychwaith i'r bechgyn.
- Dylid defnyddio 'studs' yn unig yn yr ysgol ond rhaid i'r plant eu tynnu cyn unrhyw wers ymarfer corff.
- Nid yw disgybl i adael yr ysgol heb ganiatâd.
- Nid yw'r disgyblion i ddod â theganau i'r ysgol.

GWISG YSGOL.

Bechgyn.

Trowsus llwyd golau.

Siwmpwr llwyd golau (gwddf V)

Sanau llwyd golau.

Crys glas golau. - llewys byr yn yr haf, os dymunir.

Tei glas tywyll.

Yn ystod tywydd twym gall y bechgyn lleia' wisgo trowsus llwyd byr.

Merched.

Sgert neu ffrog 'pinafore' llwyd golau.

Cardigan / Siwmpwr llwyd golau.

Sanau llwyd golau.

Blows las golau.

Tei glas tywyll.

Gwisg haf i'r merched. - Ffrog 'gingham' (glas a gwyn)

Anogir y plant i gadw at y wisg swyddogol ar bob achlysur.

Teis.

Erbyn hyn mae cyflenwad o deis (Lastig ac arferol) gennym ar werth yn yr ysgol. - Pris £3.00

Awgrymir y dylid cael enw'r plentyn ar bob dilledyn.

GWYBODAETH GYFFREDINOL.

Cinio Ysgol. - Darperir cinio ysgol yng nghegin yr ysgol ac mae mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn derbyn cinio. Ar hyn o bryd pris y cinio yw £2-50 y dydd, sef £12-50 yr wythnos. Rhaid talu am y cinio yn brydlon ar ddechrau'r wythnos ar Ddydd Llun. Rhaid talu gyda'r arian cywir, ni rhoddir newid. Ni dderbynnir sieciau i dalu am y cinio. Dylai unrhyw ddisgybl sy'n dod a brechdanau i'r ysgol ddod a phe cyn bwyd iach. Yr unig ddiodydd a ganiateir yw dŵr a llaeth.

Llaeth am ddim. - Mae'r Awdurdod yn gweithredu cynllun o roi llaeth am ddim i blant y Cyfnod Sylfaen a dan 5 oed.

Cerddoriaeth. - Rhoddir cyfle i bob unigolyn yn yr Adran Iau i dderbyn gwersi chwythbrennau, ffidil, gitâr neu drwmped gan athrawon teithiol y sir am bris rhesymol. Rhaid pwysleisio nad oes offerynnau yn perthyn i'r ysgol ac mae'n ofynnol i'r rhiant renti neu brynu offeryn.

Mae pob disgybl ym mlwyddyn 4, 5 a 6 yn derbyn gwersi recorder yn yr ysgol fel rhan o gwrs addysg yr ysgol.

Ffliwt a Chlarinet	-	Mrs. Gayle Davies.
Trwmped	-	Mr. Gethin Sanders.
Gitâr	-	Mrs. Elaine Robins.
Ffidil	-	Ms. Jenny Thomas.
Recorder	-	Mrs. Marian Evans.

Anogir y plant sydd yn derbyn gwersi ac sydd wedi cyrraedd safon dderbyniol i ymuno â cherddorfeydd y Sir.

Cymdeithas Cyfeillion. - Mae'r ysgol yn hynod ffodus bod ganddi Gymdeithas Cyfeillion weithgar a chefnogol. Mae'r gymdeithas yn cyfrannu neu'n talu tuag at gost amryw o weithgareddau, megis ymweliadau addysgol ac offer cyfrifiadurol.

Diogelwch y Ffordd. - Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn derbyn gwersi medrusrwydd beicio. Bydd yr Heddlu Lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

Ffotograffydd. - Mae ffotograffydd yn ymweld â'r ysgol ychydig wythnosau cyn y Nadolig. Rhaid pwysleisio nad oes reidrwydd i brynu lluniau.

Yr Urdd. - Cynhelir Adran yr Urdd ar nos Fercher yn ffreutur yr ysgol rhwng 3.45 p.m. a 5.00 p.m. Cyfyngir yr aelodaeth i ddisgyblion Adran Iau yr ysgol a disgwylir i'r rhieni wneud trefniadau i gasglu eu plentyn / plant yn brydlon. Rhoddir gwybodaeth i'r disgyblion os bydd rhaid gohirio'r Urdd. Darperir cyfleoedd i'r disgyblion fynychu Gwersyll yr Urdd.

Cyngherddau a Gwasanaethau. – Dethlir achlysuron arbennig yn gyson drwy gynnal cyngherddau yn Neuadd y Pentref a gwasanaethau arbennig yn yr ysgol a hefyd yn Eglwys y Plwyf, Llanddarog.

Sicrheir bod pob disgybl yn cymryd rhan a darperir digon o gyfleoedd i'r plant feithrin eu doniau.

Yr Ysgol yn y Gymdeithas. - Ceisir sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn y gymdeithas a cheisir meithrin perthynas glos rhyngddynt. Daw Ficer y Plwyf i'r ysgol am gyfnod bob wythnos i'n cynorthwyo a chroesewir trigolion o'r pentre i'r ysgol yn achlysurol.

Anogir y disgyblion i helpu eraill drwy gyfrannu at amrywiol elusennau ac achosion teilwng yn y gymuned ac yn fyd-eang.

GWASANAETHAU CYNORTHWYOL.

Darperir y canlynol gan yr Awdurdod Addysg Leol. - Nyrs ysgol a Therapyddion Llefaru. Os oes gennych wrthwynebiad i'ch plentyn gael ei weld gan un o'r uchod rhaid rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith.

* Ni roir unrhyw driniaeth gan yr uchod heb ganiatâd y rhiant. *

Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu Gwasanaeth Seicolegol. Cysylltir â'r rhieni mewn unrhyw achos lle gwelir yr angen am gymorth y Gwasanaeth uchod.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL.

Llunir cofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn flynyddol gan yr ysgol a derbynnir cymorth ariannol gan yr Awdurdod. Cyfranna'r ysgol yn ychwanegol at y swm a glustnodir er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion sydd angen sylw yn cael y gefnogaeth orau posib. Gwelir y disgyblion yn unigol neu mewn grwpiau targed er mwyn rhoi sylw arbennig iddynt a chanolbwyntir ar eu medrau darllen ynghyd ag unrhyw anhawster amlwg arall.

Os bydd angen mwy o gymorth ar y disgybl yna gofynnir am ganiatad y rhieni i roi profion ychwanegol i'r disgybl gan Seicolegydd yr Awdurdod Addysg. Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r Côt Ymarfer.

Cynllunir cynllun disgybl ganolig gyda chymorth y disgybl a'i rieni.

Byddwn yn addasu'r cwrs addysg i ddisgybl sydd angen cymorth arbennig ar gyfer yr elfennau sylfaenol mewn gwaith iaith a rhif.

Er hyn gwneir pob ymdrech i roi addysg gyflawn yn llawn amrywiol brofiadau i bob disgybl, gan geisio ymestyn pob disgybl hyd orau ei allu.

CHWARAEON.

Disgwylir i bob disgybl gymryd rhan yn y gwersi addysg gorfforol a chwaraeon, a hynny mewn dillad addas. Cynigir profiadau mewn amrywiaeth eang o chwaraeon er mwyn meithrin a hybu datblygiad sgiliau.

Amserlen gwersi addysg gorfforol.

Cyfnod Sylfaen	-	Dydd Mawrth a Dydd Gwener.
Blwyddyn 3 a 4	-	Dydd Iau.
Blwyddyn 5 a 6.	-	Dydd Iau.
Gemau i'r Adran Iau.	-	Dydd Gwener.

Trefnir Mabolgampau Blynyddol yn ystod Tymor yr Haf i'r holl ddisgyblion, a rhennir yr Ysgol i dair llys - Arthne, Cyndeyrn a Darog.

Mae modd prynu crysau 't' y timau yn ystod tymor yr Haf.

Mae timau o'r ysgol yn cystadlu yn erbyn timau o ysgolion eraill yng nghystadlaethau'r Cwm, yr Urdd a hefyd er mwyn cymdeithasu â phlant o ysgolion cyfagos.

Pwysleisir bod "cymryd rhan" yn y gweithgareddau yn bwysicach na'r ennill a bod rhaid i bob unigolyn gyfrannu ei orau glas ar bob achlysur.

Anogir y disgyblion hynny sydd â thalent yn y maes hwn i gystadlu ar lefel uwch drwy ymuno â thimau ardal megis Cylch Mynydd Mawr, Clwb Nofio Caerfyrddin neu Glwb Rhedeg yr Harriers.

MARCIO A CHYWIRO.

Mae marcio gwaith disgyblion yn rhan annatod o asesu gwaith ac wrth farcio medrwn :-

- a). adnabod cryfderau a gwendidau'r disgyblion er mwyn eu cynorthwyo.
- b). cynllunio y camau nesaf yn eu datblygiad.

Ceisiwn farcio'n adeiladol ac yn ddewisol gan ofalu peidio a gor gywiro. Rhaid sylweddoli bod gofynion gwahanol dasgau a osodir yn amrywio, ac adlewyrchir hyn yn y marcio. e.e. gellir canolbwyntio ar y sillafu, treigladau neu' r atalnodi. Anogir y disgyblion i hunan werthuso eu gwaith.

GWAITH CARTREF.

Rhoddir gwaith cartref i ddisgyblion Blwyddyn 2 yn y Cyfnod Sylfaen. Gosodir gwaith cartref i'r Adran Iau yn wythnosol. Nid yw gwaith cartref yn orfodol ond anogir y disgyblion hynaf i arfer gweithio gartref fel rhan o'u paratoad ar gyfer ysgol Uwchradd. Dylid pwysleisio nad yw gwaith cartref o reidrwydd yn waith ysgrifenedig. Gofynnir weithiau i'r disgyblion gasglu gwybodaeth am bwnc arbennig. Dylai'r gwaith cartref ysgrifenedig gael ei gyflwyno mewn ffeil a ddarperir yn daclus.

Awgrymir yn gryf y dylid neilltuo cyfnod byr bob nos i ddarllen rhan o lyfr sy'n addas ar gyfer oed darllen y disgybl yn Gymraeg a Saesneg.

I annog disgybl i fwynhau darllen mae'r ysgol yn trefnu nifer o ffeiriau llyfrau ynghyd a rhoi gwahoddiad i bob disgybl yn yr ysgol i ymuno â chlwb llyfrau.

Y Clwb Llyfrau	-	Llyfrau Cymraeg.
Puffin a/neu Scholastic	-	Llyfrau Saesneg.

COFNODI DATBLYGIAD.

Cedwir proffil o ddatblygiad disgybl trwy gydol ei arhosiad yn yr ysgol er mwyn sicrhau adlewyrchiad teg ohono bob cam o'r ffordd i fyny'r ysgol.

Mae'r proffil yn cynnwys:-

1. Ffurflenni mynediad y disgybl.
2. Aseidiadau ar system dracio'r ysgol.
3. Enghreifftiau o'i waith.
4. Canlyniadau Profion Safonol.
5. Cofnod o'i ddatblygiad personol ac addysgol.
6. Cofnod o'i ddatblygiad yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Yn ystod tymor cyntaf disgybl yn yr ysgol fe'i asesir yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Gwahoddir rhieni pob disgybl newydd yn eu tro i'r ysgol i drafod yr asesiad gyda'r athrawes ddosbarth cyn diwedd y tymor.

Mae'r broses o asesu yn un barhaus a rhoddir profion Cenedlaethol statudol yn flynyddol mewn Darllen a Rhifedd i ddisgyblion o Flwyddyn 2 ac i fyny.

Darperir adroddiad ysgrifenedig yn flynyddol i'r rhieni yn ystod tymor yr haf. Gwahoddir y rhieni i wneud apwyntiad i weld a thrafod gwaith y disgyblion gyda'r athro dwy waith yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn ystod Tymor yr Hydref cynhelir Noson Gosod Targedau ar gyfer y flwyddyn sy'n cysylltu targedau'r Adroddiad Blynyddol gyda targedau personol y plentyn a cheir cyfle i adolygu'r targedau a nodi'r ffordd ymlaen yn ystod Tymor y Gwanwyn.

Yn ogystal, gweithredir cynllun "drws agored", lle gall rhiant ffonio a gwneud apwyntiad i weld a thrafod datblygiad y disgybl, neu i drafod unrhyw fater addysgol perthnasol gyda'r pennaeth neu'r athro dosbarth ar amser cyfleus.

DULL GWEITHREDU CWYNION.

Mae'r ysgol yn dilyn y drefn o gwyno a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru:

CAM 1 – Yn bennaf, mae hyn yn cynnwys trafodaeth anffurfiol gyda'r athro neu'r person dynodedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddem yn disgwyl y byddai'r mater sydd yn peri pryder yn cael ei ddatrys yn anffurfiol yng nghanam 1.

CAM 2 – Os ydych yn teimlo nad yw'r mater a achosodd bryder i chi ar y dechrau wedi'i ddatrys, dylech gyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r Pennaeth. Bydd y Pennaeth yn ymchwilio i'ch cwyn ac yn cwrdd a chi.

CAM 3 – Cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Llywodraethwyr. Os na chaiff y gwyn ei datrys yng nghanam 2, dylai'r pwyllgor a sefydlwyd gan y corff Llywodraethu i ymdrin a chwynion ystyried y gwyn.

Mae copi llawn o'r Polisi Cwynion ar gael oddi wrth y Pennaeth.

ADDYSG RHYW.

Cyflwynir Addysg Rhyw fel rhan integredig o gwricwlwm yr ysgol. Bydd ar gael i'r holl ddisgyblion gan gymryd i ystyriaeth oed, aeddfedrwydd, datblygiad a chredoau'r disgyblion.

Fe'i gosodir yng nghyd destun cariad, gofal, ystyriaethau moesol a gwerth bywyd teuluol.

Mae croeso i rieni ddod a thrafod y rhaglen gyda staff ar unrhyw adeg ym mywyd ysgol eu plant ac fe'u hanogir i fod yn rhan o'r bartneriaeth wrth baratoi pobl ifanc i fod yn oedolion cyfrifol.

Pan fo rhieni yn pryderu am addysg rhyw, fe allent dynnu eu plentyn allan o unrhyw ran o'r rhaglen nad yw'n gynwysedig yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn yr achos o gais

ysgrifenedig, gwahoddir rhieni i drafod eu gofidiau gyda staff a / neu llywodraethwyr ac fe wneir trefniadau priodol i ddelio â dymuniadau'r rhieni lle bo hynny'n ymarferol bosibl. Ar adegau cysylltir â rhieni ynglyn â chynnwys a'r dull o gyflwyno'r rhaglen ac fe ymgorfforir eu safbwyntiau a'u syniadau lle bo'n briodol.

Trefnir bod nyrs yr ysgol yn ymweld â'r disgyblion hynaf yn ystod tymor yr haf i drafod a gweld fideo ar 'Dyfu i fyny'.

DIOGELWCH.

Er mwyn diogelwch y disgyblion, rhaid i bob ymwelydd i'r ysgol, boed yn riant neu yn un o'r cyhoedd, ddilyn yr arwyddion sydd o gwmpas yr ysgol a defnyddio prif fynedfa'r ysgol ar bob achlysur. Rhaid arwyddo mewn ac allan. Rhaid cysylltu â'r pennaeth cyn ymweld ag un o'r athrawon.

Cynhelir dril tân yn dymhorol.

TYWYDD GARW.

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor yn ystod tywydd garw e.e. eira ond mae'n syniad cysylltu er mwyn cael cadarnhad. Cysylltir gyda rhieni ar system tecstio rhieni'r ysgol a mae gwybodaeth pellach ar wefan yr ysgol a gwefan y cyngor Sir.

ADDOLI AR Y CYD.

Cynhelir gwasanaeth boreol yn ddyddiol. Mae hawl gan riant i eithrio'r disgybl rhag mynychu'r gwasanaeth hyn ynghyd â'r gwersi Addysg Grefyddol drwy wneud cais ysgrifenedig i'r Pennaeth.

SNAP CYMRU.

Mae SNAP Cymru yn darparu Gwasanaethau Cefnogi Rhieni Annibynnol yng Nghymru, yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd plant a phobl ifanc sydd ag neu a allai fod ag anghenion addysgol arbennig.

Ffôn: 02920 384868 neu 0845 1203730

www.snapcymru.org

ECO GYNGOR YR YSGOL.

Sefydlwyd Eco Gyngor yr Ysgol yn 2002 ac etholir aelodau i'r Cyngor yn flynyddol gan gyd ddisgyblion. Caiff y disgyblion gyfle i drafod materion amrywiol gan wneud penderfyniadau priodol sy'n cynrychioli barn holl ddosbarthiadau'r ysgol.

Mae'r Eco Gyngor hefyd yn gyfrifol am werthu ffrwythau (30c) i'r plant yn ystod egwyl y bore.

MENTER BRECWAST AM DDIM.

Mae Clwb Brecwast yr ysgol ar agor bob bore o 8.15 a.m. tan 8.45 a.m.

Mae'r brecwast a'r oruchwyliaeth yn ystod y sesiwn am ddim.

RHAGLEN BRWSIO DANNEDD

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn brwsio dannedd o dan oruchwyliaeth bob dydd. Nod y rhaglen yw gwella iechyd deintyddol y disgyblion.

PRESENOLDEB

Blwyddyn 2016-2017

	% presenoldeb	% absenoldeb awdurdodedig	% absenoldeb anawdurdodedig
Meithrin a Derbyn	95.07%	4.65%	0.98%
Blwyddyn 1 a 2	95.69%	4.03%	0.99%
Blwyddyn 3 a 4	96.55%	3.34%	0.91%
Blwyddyn 5 a 6	97.47%	2.53%	0.91%
Ysgol	96.22%	3.62%	0.17%

Targed presenoleb am 2017-18 yw 96%.

ABSENOLDEB

Mae presenoldeb ysgol rheolaidd yn hanfodol a gall colli ysgol gael effaith arwyddocaol ar gyflwaniad eich plentyn.

Mae'n ofynnol i bob rhiant hysbysu'r ysgol am unrhyw absenoldeb mewn llythyr neu trwy alwad ffôn. Os na wneir hynny bydd eich plentyn yn cael ei ddynodi fel 'absennol heb ganiatad'. Nid does hawl gan y Pennaeth awdurdodi unrhyw absenoldebau a achosir gan wyliau adeg tymor. Golyga hyn y caiff absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor, eu cofnodi fel rhai anawdurdodedig.

Mae'r gofrestr yn cael ei chau am 9.15 y.b. Bydd unrhyw ddisgybl sydd yn cyrraedd wedi'r amser hwn heb reswm meddygol yn cael ei ddynodi fel 'hwyr wedi i'r gofrestr gau' ac yn cael ei drin fel absenoldeb bore ar ystadegau'r ysgol. Disgwylir i rieni arwyddo llyfr yn y dderbynfa pan fo'u plentyn yn cyrraedd yn hwyr. Anogir rhieni i geisio, lle bo'n bosibl, i wneud apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol y tu allan i oriau ysgol, rhag tarfu ar addysg eu plentyn.

POLISI CODI TÂL

Ni chodir tâl am weithgareddau ysgol heblaw am yr isod:

- Teithiau addysgol, lle gofynnir am gyfraniadau gan rieni.
- Gweithgareddau allgyrsiol a drefnir gan fudiadau allanol.
- Gwersi offerynnol.

Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod pan fo rhiant / gwarcheidwad yn pryderu am gostau sy'n ymwneud â'r ysgol.

DIOGELU PLANT

Mae gan yr ysgol Bolisi Amddiffyn Plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol.

Y person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol hon yw

Y Pennaeth, Meinir Jones ac yn ei habsenoldeb Mrs. Marian Evans.

Y Llywodraethwr dynodedig sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant yw'r Cadeirydd (Mark Griffiths).

PLANT MEWN GOFAL

Y person sy'n gyfrifol am hybu datblygiad addysgiadol plant mewn gofal yw'r Pennaeth.

Ysgol Gynradd Llanddarog – Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Cytundeb Partneriaeth rhwng Rhieni / Disgybl / Ysgol

	<i>Fel rhiant byddaf yn gwneud fy ngorau i</i>	<i>Fel disgybl byddaf yn gwneud fy ngorau i</i>	<i>Fel ysgol byddwn yn gwneud ein gorau i</i>
<i>Bod yn barod i'r ysgol</i>	..ddanfôn fy mhleintyn i'r ysgol yn lân a thaclus ac mewn gwsg ysgol os yw'n bosibl .. sicrhau fod yr offer addas ganddo ar gyfer diwrnod ysgol e.e cas pensiliau, gwsg ymarfer corff	.. gadw fy hun yn lân a thaclus a gwsgo fy ngwsg ysgol os yn bosibl .. ddod â'r offer addas ar gyfer gwneud fy ngwaith yn yr ysgol	.. hyrwyddo gwsgo'r wisg ysgol swyddogol a glendid a thacluswydd personol .. sicrhau fod y plentyn yn ymwybodol o'r offer sydd angen ar gyfer y diwrnod ysgol
<i>Presenoldeb / Prydlondeb</i>	.. sicrhau fod fy mhleintyn yn bresennol ac yn brydlon bob dydd	.. fynychu'r ysgol yn feunyddiol ac yn brydlon	.. annog presenoldeb a phrydlondeb bob amser
<i>Gwaith dosbarth a Gwaith cartref</i>	.. gymryd diddordeb gweithredol yng ngwaith fy mhleintyn a'i gefnogi tra'n ei wneud .. annog fy mhleintyn i wneud ei orau .. sicrhau fod fy mhleintyn yn gwneud ei waith cartref yn rheolaidd	.. wrando ar fy athro a gweithio'n galed .. wneud yn siŵr fy mod yn gwybod yn union beth yw'r dasg gwaith cartref cyn gadael yr ysgol, ei wneud a'i ddychwelyd yn brydlon ac yn daclus	.. ddysgu'n effeithiol ac yn bwrpasol .. baratoi eich plentyn mewn ystod eang o destunau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac ar gyfer ei ddyfodol .. osod gwaith pwrpasol a'i farcio'n ystyrlon ac yn rheolaidd .. osod gwaith cartref yn rheolaidd
<i>Ymddygiad</i>	.. annog fy mhleintyn i feithrin safonau uchel o ymddygiad bob amser	.. ymddwyn yn dda o fewn a thu allan i'r ysgol .. ddilyn rheolau'r ysgol	..annog safonau uchel o ymddygiad bob amser yn unol â rheolau'r ysgol
<i>Cymorth Bugeiliol</i>	.. hysbysu'r ysgol os oes yna broblem sy'n debygol o effeithio addysg fy mhleintyn	.. adael fy athro wybod os oes unrhyw ofidiau gennyf cyn gadael yr ysgol am y dydd	.. wrando ar, ac ymateb i broblemau neu ofidiau ar unwaith
<i>Cysylltiadau cartref/ysgol</i>	.. fynychu cyfarfodydd rhieni .. ddarllen llythyron o'r ysgol ac ymateb iddynt os oes angen .. gefnogi'r ysgol a'i rheolau lle bo angen e.e disgyblaeth	.. ddangos pob llythyr, a rhoddwyd i mi gan yr ysgol, i'm rhieni	.. gynnal cyfarfodydd rhieni yn rheolaidd .. adrodd yn rheolaidd ar ddatblygiad, presenoldeb a phrydlondeb eich plentyn yn yr ysgol .. 'ch hysbysu am unrhyw ofidiau sydd gennym ynglŷn â'ch plentyn
<i>Bywyd allgyrsiol yr ysgol</i>	.. gefnogi gweithgareddau y mae'r ysgol yn ei gynnal e.e. Ffair Nadolig ayb	.. fanteisio ar y cyfleoedd sy'n agored i mi yn yr ysgol e.e. nofio, cyngherddau, gwersi offerynnol,	.. 'ch hysbysu am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal neu mae'r ysgol yn rhan ohonynt

Enw'r plentyn:- Blwyddyn :-

Arwyddwyd :- (Rhiant) Dyddiad :.....

Llofnodwyd ar ran yr ysgol:- Dyddiad :-.....

